# TAGOCA - TYST HYDERUS

Os gwelwch chi ymddygiad gwrthgymdeithasol ar y stryd, byddwch yn dyst hyderus a chofiwch

**TAGOCA!**

**T**ynnu llun

**A**drodd yr hanes wrth yr heddlu

**G**weiddi am help

**O**sgoi rhoi eich hun mewn perygl

**C**adw record o'r hyn rydych wedi ei weld

**A**rwain trwy esiampl

Os bydd nifer y bobl sy'n dilyn TAGOCA yn dyblu gallwn ostwng lefel y trais ar y stryd o 20%. Mae llawer gormod ohonom yn cerdded 'y ffordd arall heibio' ac yn anwybyddu trais ar y stryd.

Dyma straeon am dystion sydd wedi ceisio helpu wrth ddod ar draws troseddwyr.

27 Mai 2011

## Lladron yn cael eu carcharu am 27 mlynedd diolch i 'Super Gran'



Mae 5 dyn o Islington wedi cael eu carcharu am gyfanswm o 27 mlynedd wedi i fam-gu 71 oed eu rhwystro rhag dwyn gwerth £100,000 o emwaith o siop yn Northampton. Dechreuodd Ann Tomlinson daro aelodau'r gang gyda'i bag llaw a chafodd y digwyddiad ei ffilmio gan gamera stryd.

Awst 14, 2011

# Gyrrwr lori yn gwrthod cael ei adnabod fel arwr



*Mr Thomas Alan*

Mae gyrrwr lori a ddaliodd leidr yn dwyn iPhone oddi ar ferch, yn mynnu mai digwydd bod yn y lle iawn ar yr amser iawn yr oedd ac nad oedd yn arwr. Dywedodd Mr Thomas Alan, a redodd ar ôl y lleidr a mynnu cael y ffôn yn ôl cyn i'r heddlu gyrraedd, 'Mae'n gymaint o biti bod cymdeithas wedi mynd mor ddi-fater. Pe bai pawb yn camu i mewn wrth weld rhywbeth fel hyn byddai lladron yn meddwl ddwywaith cyn dwyn'.

Awst 15, 2011

# Camera yn rhoi bachgen mewn carchar

Diolch i gamera ffôn Elliw Thomas o Fae Penfyr, mae bachgen 19 oed wedi ei garcharu am 5 mlynedd am ymosod ar fachgen arall. Cerdded adref o'i gwaith yr oedd Elliw pan welodd Adam Sprint yn ymosod ar Wil Price gyda chyllell. Tynnodd Elliw ei ffôn allan o'i bag i gael llun cyn ffonio 999. Meddai Elliw, 'Roedd arna i ofn ond daeth yr heddlu mewn chwinc. Roedd yr ymosodwr wedi mynd cyn i'r heddlu gyrraedd ond roedden nhw'n ei adnabod unwaith y gwelson nhw'r llun'.

